Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu** |
| **Lleoliad:** | **Siambrau Cyngor Powys, Llandrindod** |
| **Dyddiad:** | **7 Mai 2019** |
| **Amser:** | **10:00 – 12:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (MC)<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Claire Parmenter (DBG/DD)<br>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (PGC/DD)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Mrs Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (BP)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Ariannol (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y Swyddog Staff Chris Neve (CN)<br>Y Swyddog Staff Andrew Williams (AW)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH)<br>Mrs Emma Northcote, Adran Gyfathrebu'r Heddlu (EN)<br>Mr Ben Cole, Swyddog Cyfathrebu Digidol (BC) |
| **Arsylwyr:** | Aelodau o Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:<br>Y Cynghorydd David Evans<br>Y Cynghorydd Les George<br>Y Cynghorydd Williams Powell |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/02/2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan: |
| **PAB 113** | **MH i wahodd aelodau o'r gymuned fusnes i gyfarfod nesaf BAH yn Llandrindod.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 114** | **Darparu rhagolygon blwyddyn ar ôl blwyddyn o wariant ar bennu tasgau cudd fel rhan o adroddiadau perfformiad BAH yn y dyfodol.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 115** | **Dosbarthiad 92A y Swyddfa Gartref i ymddangos fel rhan o'r adroddiad perfformiad.** | **Yn parhau – i'w gynnwys yn adroddiad y chwarter nesaf.** |
| **PAB 116** | **Rhoi gwybodaeth am waith Andrew Edwards i'r CHTh erbyn cyfarfod nesaf BAH ar 7 Mai.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 117** | **Y PG i adolygu'r oedi o gwmpas cyflwyno ffurflenni Cyfiawnder Adferol 1 i Dimau Troseddau** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ieuenctid.** | |
| **PAB 118** | **Cyflwyno rhagolygon blwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfraddau euogfarnau Llysoedd Ynadon yng nghyfarfod nesaf BAH ar 7 Mai.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 119** | **Cyflwyno nifer a chyfradd ateb galwadau 101 yng nghyfarfod BAH ym mis Mai 2019.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 120** | **Y CHTh a'r PG i geisio eglurhad ynghylch strwythurau llywodraethu a chyllidebau cydweithio yng nghyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 121** | **Tîm Gweithredol SCHTh i drafod strwythur agenda BAH cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mai 2019.** | **Cwblhawyd** |

**1 – Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau**

**2 – Trafodaeth gydag Aelodau o'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**3 – Diweddariad ynghylch camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Penderfynwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2019 yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r drafodaeth.

**4 – Adroddiad perfformiad yr heddlu – Chwarter 4**

Agorodd y CHTh drafodaeth ar Adroddiad Perfformiad yr Heddlu drwy ddweud bod HDP dal yn perfformio'n dda o ran hyder cyhoeddus, a holodd sut oedd yr heddlu'n rhagweld ei hun yn gwella ar yr agwedd hon o blismona yn y dyfodol. Ymatebodd y PGC/DD drwy ddweud bod canfyddiad y cyhoedd ynglŷn â pha un ai a oedd yr heddlu'n ymdrin â materion mewn modd boddhaol yn ystod y chwarter diwethaf yn cael ei ystyried yn is o lawer na chanlyniadau blaenorol, fodd bynnag, mae hyn yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Aeth y PGC/DD yn ei blaen i ddweud bod Prif Swyddogion wrthi'n archwilio i'r opsiwn o ffurfio Bwrdd Cysylltu Cymunedau a chyflwyno strwythur newydd ar gyfer Timoedd Plismona Bro er mwyn sicrhau bod HDP yn parhau yn yr un sefyllfa gadarnhaol ag y bu mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â hyder cyhoeddus.

Symudodd y sgwrs ymlaen at yr achosion cwyn sy'n cael eu hadolygu gan yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP). Cyfeiriodd y CHTh at yr achosion sy'n bod ers amser maith a gofynnodd am sicrwydd eu bod nhw'n cael eu datblygu gan y tîm ASP. Dywedodd y PG ei fod yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda Catrin Evans o Swyddfa Cwynion Annibynnol yr Heddlu er mwyn trafod cynnydd yr ASP, ac adroddodd ei bod wedi canmol perfformiad yr Heddlu mewn perthynas â chwynion a'i allu i ddatblygu a datrys achosion yn gyflym. Nodwyd bod y DBG/DD hefyd yn cwrdd â Phennaeth yr ASP yn rheolaidd er mwyn craffu ar ddatblygiad achosion. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag achosion sy'n mynd rhagddynt sydd wedi bod yn nwylo'r gyfraith ers amser hir, gyda'r CHTh yn holi pryd mae'r Heddlu'n disgwyl y bydd yr achosion hynny'n cael eu datrys.

**Cam Gweithredu: Y DBG/DD i roi crynodeb i'r CHTh o bob achos cwyn dros 180 diwrnod gwaith.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at lefelau o gyfanswm y troseddau sydd wedi'u cofnodi ers mis Ebrill 2017, gyda'r CHTh yn dweud bod y nifer wedi cynyddu'n raddol. Dywedodd y PGC/DD bod gwaith ar gofnodi troseddau'n parhau er mwyn sicrhau bod troseddau'n cael eu cofnodi'n gywir, a allai arwain at gynnydd yn y niferoedd a gynhwysir o fewn yr adroddiad perfformiad. Dywedodd y CHTh bod HDP wedi mynd o fod mewn sefyllfa lle'r oeddent yn cydymffurfio 67% â mesurau unplygrwydd data trosedd Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) i gydymffurfio 88%. Holodd y CHTh pa welliannau oedd yn cael eu gwneud gan yr Heddlu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei farnu'n dda (cydymffurfio 90% neu fwy) yn dilyn arolygiad nesaf AHGTAEM. Dywedodd y PGC/DD bod y Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Strategol yn monitro cydymffurfiaeth, sy'n sicrhau bod gwelliannau a awgrymir gan AHGTAEM yn cael eu rhannu ymysg Unedau Rheoli Sylfaenol HDP, a fydd, yn eu tro, yn diweddaru'r Grŵp Defnyddwyr ynglŷn â'u cynnydd. Dywedodd y PGC/DD hefyd bod gweithdy'n cael ei gynnal gan grŵp tactegol HDP i fapio'r broses o'r ffordd y mae trosedd yn llifo drwy'r sefydliad er mwyn sicrhau bod prif swyddogion yn deall ble y gallai gwybodaeth syrthio drwy'r craciau, a pham. Holodd y CHTh pa un ai a ddylai'r Heddlu ofyn i AHGTAEM ddod mewn i adolygu agwedd benodol o blismona yn dilyn cyfnod o ddatblygiad o fewn adran, megis cyflwyno'r Ddesg Fregusrwydd. Dywedodd y DBG/DD bod AHGTAEM wedi derbyn gwahoddiad i adolygu a sicrhau ansawdd datblygiadau i Blismona Bro a'r Ddesg Fregusrwydd ym mis Hydref 2019. Hefyd, dywedodd y DBG/DD bod Sarah Cooper, cynrychiolydd o AHGTAEM, bellach yn eistedd ar Grŵp Llywodraethu AHEM HDP.

**Cam Gweithredu: AHGTAEM i ymddangos fel eitem dreigl ar agenda'r Bwrdd Plismona er mwyn rhoi cyfle i brif swyddogion ddiweddaru SCHTh am gynnydd HDP o ran cwblhau argymhellion a wnaed gan AHGTAEM.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at gategorïau trosedd, gyda'r CHTh yn holi pam y bu gostyngiad o 13% mewn byrgleriaethau i 564 rhwng Mawrth 2018 a Mawrth 2019. Nodwyd bod byrgleriaethau ond yn cyfrif am 2% o'r holl droseddau a gofnodir yn HDP, gyda'r PG yn awgrymu bod troseddolrwydd wedi newid wrth i bobl wneud eu heiddo'n fwy diogel.

Adolygodd y Bwrdd nifer y troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas hyd at fis Mawrth 2019, sef 788 - cynnydd o 32% ers 2018. Mae'r categori trosedd hwn yn cynnwys seiberdroseddu a throseddau bygythiad lefel is. Nodwyd bod troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas ar eu hanterth yn Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr 2019.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at nifer y troseddau trefn gyhoeddus hyd at fis Mawrth 2019, sef 1819 - cynnydd o 41% ers 2018. Cafwyd trafodaeth am ail-gategoreiddio digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd nawr yn cael eu cofnodi fel troseddau trefn gyhoeddus. Pwysleisiodd y CHTh bwysigrwydd peidio troseddoli pobl am droseddau lefel is a fyddai wedi'u categoreiddio'n flaenorol fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda'r PGC/DD yn dweud y byddai gan ddigwyddiadau lefel is ganlyniadau gwahanol er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu troseddoli'n ddiangen.

Symudodd y Bwrdd ymlaen at drais yn erbyn y person. Nifer y digwyddiadau hyd at fis Mawrth 2019 oedd 11,714, sef cynnydd o 23% o fis Mawrth 2018. Dywedodd y PGC/DD y bydd y rhan fwyaf o'r ffigurau'n cyfrif am achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, sy'n faes gwaith penodol lle mae HDP yn cyfeirio adnoddau, er bod y categori hwn yn cynnwys digwyddiadau sy'n amrywio o ymosodiadau i lofruddiaethau. Mae'r Ddesg Fregusrwydd yn sicrhau bod asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu'n cael ei gynnal pan mae swyddogion yn cyrraedd lleoliad digwyddiad cam-drin domestig, sy'n golygu bod gan swyddogion becynnau cudd-wybodaeth da yn lleoliad y digwyddiad sy'n eu galluogi i gynnal asesiadau risg sy'n seiliedig ar amgylchiadau'r teulu penodol maen nhw'n gweithio gyda nhw. Bydd y cam nesaf yn cynnwys asesu sut mae HDP yn medru rheoli troseddwyr yn well mewn cydweithrediad â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Dywedodd y PGC/DD bod adolygiadau misol o niferoedd yn dangos bod lefelau uchel iawn o'r math hwn o drosedd wedi'u cofnodi yn dilyn newid i arferion cofnodi ym mis Ebrill 2017. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn troseddau aflonyddu ac ymosodiadau cyffredin, gyda'r ddau'n sensitif i newidiadau i'r ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi. Holodd y CHTh sut oedd y defnydd o gamerâu corff yn cael ei fonitro gan HDP er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio'n gyson. Dywedodd y PGC/DD bod swyddogion yn derbyn neges gan y ddesg fregusrwydd yn eu hatgoffa i droi eu camerâu ymlaen, a chyfeiriodd at enghreifftiau da o erlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a arweiniwyd gan ffilmiau camerâu corff.

**Cam Gweithredu: Alison Perry o SCHTh i eistedd ar Grŵp Aur Cam-drin Domestig yr Heddlu.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at droseddau rhyw. Bu 1446 achos rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2019, sef cynnydd o 11% ar y flwyddyn flaenorol, sy'n cyfrif am 5% o holl droseddau HDP. Dywedodd y CHTh bod mwy o achosion yn cael eu hadrodd yn flynyddol, gyda'r PGC/DD yn dweud bod cynnydd o 10% ar draws Cymru a Lloegr. Yn HDP, roedd cynnydd dim cysylltiad yn ymwneud â phlant mewn achosion o anfon negeseuon rhywiol a chyfryngau cymdeithasol, gyda'r PGC/DD yn dweud bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn asesu pa un ai a oedd angen darpariaethau pellach a chydlynu gydag ysgolion a phenaethiaid er mwyn mynd i'r afael â'r problemau.

Agorodd y CHTh drafodaeth ar y categori meddu ar arfau, a welodd 218 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn yn arwain at fis Mawrth 2019, sef cynnydd o 52% ar y flwyddyn flaenorol, sy'n cyfrif am 1% o holl droseddau HDP. Roedd y CHTh yn drist i sôn am ddwy farwolaeth dreisgar yn Llundain dros y penwythnos, a oedd yn cynnwys arf, ac awgrymodd bod HDP o bosibl yn hunanfodlon mewn perthynas â throseddau sy'n cynnwys arfau, gan nad yw digwyddiadau o'r fath yn gyffredin yn yr ardal heddlu. Dywedodd y PGC/DD y bu cynnydd o 20% yn nifer y troseddau sy'n ymwneud ag arf â llafn rhwng Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018, a bod arfau'n cael eu defnyddio'n bennaf mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig lle mae pobl mewn argyfwng yn bygwth niweidio eu hunain neu eraill yn hytrach na'u bod yn cael eu defnyddio mewn achosion o drais ar strydoedd cyhoeddus. Mae'r PGC/DD wedi gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r ffigurau diweddaraf yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Perfformiad yr Heddlu. Nodwyd hefyd bod troseddau Meddu ar Arfau Saethu wedi cynyddu o 36%, sy'n cyfrif am 19 arf saethu. Ystyrir hyn yn nifer isel. Dywedodd y PGC/DD mai dim ond 2 neu 3 a adenillwyd mewn ymgyrch ddiweddar sy'n parhau (Ymgyrch Regent), ac o'r 19 arf saethu a oedd yn gysylltiedig â'r troseddau Meddu ar Arfau Saethu, roedd y rhan fwyaf wedi'u defnyddio yn ystod digwyddiadau domestig lle mae pobl mewn argyfwng, yn hytrach nag annog trais ar y strydoedd neu drwy weithgarwch llinellau cyffuriau. Ar ôl y drafodaeth, holodd y CHTh yn uniongyrchol pa un ai a oedd HDP wedi gweld cynnydd mewn achosion o drais sy'n cynnwys cyllyll neu arfau saethu. Sicrhaodd Prif Swyddogion ef nad felly yr oedd.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â chanlyniadau trosedd a gyflawnwyd, gyda'r CHTh yn holi pa un ai a oedd craffu priodol yn cael ei gyflawni mewn perthynas â Chanlyniad 21. Mae Canlyniad 21 yn cyfeirio at achosion lle mae'r heddlu'n gwybod am rywun a ddrwgdybir, ac mae ymagwedd asiantaeth bartner yn cael ei defnyddio er mwyn cefnogi ac ystyried yr unigolyn yn hytrach na chanlyniad troseddol. Dywedodd y PGC/DD bod Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Iaith yr

Heddlu'n cynnal adolygiad o'r canlyniad erbyn Bwrdd Perfformiad nesaf yr Heddlu ym mis Gorffennaf er mwyn hysbysu dealltwriaeth HDP o unrhyw ddatblygiadau.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at lefelau cyfanswm y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a syrthiodd o 900 i 579 rhwng Mawrth 2018 a Mawrth 2019. Canmolodd y PG waith y Timoedd Plismona Bro o ran mynd i'r afael â materion ansawdd bywyd ar gyfer preswylwyr ar draws yr ardal Heddlu.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at wrthdrawiadau traffig y ffyrdd yn dilyn sawl marwolaeth ledled yr ardal heddlu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dywedodd y CHTh ei fod yn ymwybodol o waith da parhaus gan Dîm Plismona'r Ffyrdd HDP er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddefnydd diogel o'r ffyrdd drwy Ymgyrch Darwen yr Heddlu, a dywedodd y PGC/DD bod sawl digwyddiad wedi cynnwys amgylchiadau anarferol a thrasig nad oedd modd eu hosgoi, er bod nifer y gwrthdrawiadau'n peri gofid. Nodwyd y byddai'r ffigurau ar gyfer marwolaethau ar y ffyrdd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Bwrdd Perfformiad yr Heddlu ym mis Gorffennaf i'w trafod.

Symudodd y CHTh ymlaen at y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ateb galwadau 101 yn Gymraeg a Saesneg. Roedd y CHTh yn deall y cynnydd tymhorol rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2018, lle cymerwyd ychydig dan 50 eiliad ar gyfartaledd i ateb galwadau Saesneg ac ychydig dros 60 eiliad ar gyfartaledd i ateb galwadau Cymraeg, fodd bynnag, holodd pam bod tuedd tebyg o fis Ionawr 2019 ymlaen. Dywedodd y PGC/DD bod canolfan alwadau HDP wedi profi cyfnod o absenoldebau salwch yn ystod ar amser hwn, a oedd yn golygu bod llai o staff ar gael i ateb galwadau. Dywedodd y PGC/DD hefyd bod arferion o fewn y ganolfan alwadau'n cael eu newid er mwyn ceisio datrys rhai galwadau adeg y pwynt cyswllt cyntaf, sydd wedi arwain at alwadau hirach. Mae hyn yn golygu bod y rhai sy'n disgwyl am ateb yn aros yn hwy. Dywedodd y PGC/DD wrth y Bwrdd bod dadansoddiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o'r galw ar Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu, ac y byddai hyn yn effeithio ar blismona rheng flaen yn ei dro. Mae'r Dadansoddiad o Alw wedi cynnal gweithgarwch dadansoddi er mwyn asesu arferion yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, ac mae HDP wrthi'n ymgysylltu â Heddlu Gogledd Cymru (HGC), sydd wedi gorffen darn da iawn o waith galw y gallai HDP ddysgu ohono yn ddiweddar. Dywedodd y PG bod adolygiad o Blismona Bro wedi'i gynnal ac y byddai'r argymhellion o hynny'n cychwyn ym mis Medi 2019. Mae adolygiad o'r Uned Plismona'r Ffyrdd hefyd wedi'i gwblhau, gan arwain at ailstrwythuro eu gwaith, sydd wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i'r gefnogaeth maen nhw'n rhoi i dimoedd ymateb.

Holodd y CHTh sut mae buddsoddiadau i'r Tîm Pennu Troseddau a Digwyddiadau (ICAT) wedi effeithio ar alw ehangach yr Heddlu. Ymatebodd y PGC/DD drwy ddweud bod Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n cwmpasu'r Tîm Cofnodi Troseddau, ICAT a Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a bod tîm ICAT wedi cynyddu ei

berchnogaeth o droseddau o 15% ym mis Awst 2018 i ganran cyfredol o 35%. Mae ICAT hefyd yn rheoli 70% o wrthdrawiadau traffig y ffyrdd lle bu anafiadau nad oeddent yn rhai difrifol.

**5 – Adroddiad Perfformiad Ariannol – Chwarter 4**

Diweddarodd y CA y Bwrdd ynghylch sefyllfa ariannol HDP. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar chwarter olaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda'r CA yn dweud bod yr Heddlu ar y ffordd i gynhyrchu'r datganiad ariannol drafft erbyn 31 Mai. Dywedodd y CA bod yr Heddlu wedi bod yn defnyddio 'Botwm Mawr Coch' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA's) er mwyn symleiddio prosesau mewn perthynas â chyfrifon, sydd wedi'u galluogi i wella prosesau a chychwyn mapio cod ar gyfer 2017/18, fodd bynnag, penderfynwyd mynd yn ôl i'r prosesau sydd wedi'u sefydlu er mwyn cwblhau cyfrifon drafft 2018/19, a bydd gwaith pellach yn parhau ar y Botwm Mawr Coch unwaith y bydd archwiliadau a phrosesau diwedd flwyddyn wedi'u cwblhau.

Nodwyd bod datganiad sefyllfa cyllideb refeniw sy'n dangos y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Heddlu a SCHTh yn nodi sefyllfa tanwariant net o £498,000 yn erbyn y proffil cyllidebol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys £233,000 o gyllideb CHTh a £264,000 o gyllideb yr Heddlu. Dywedodd y CA bod tanwariant yn erbyn y Gyllideb Cyflogau a Goramser yn ymwneud â phwysau gweithrediadol yn ystod yr haf a'r hydref wedi cael ei wrthbwyso gan arbedion yn y gyllideb ar gyfer pethau ar wahân i gyflogau.

Aeth y CA ymlaen i ddweud bod £504,000 wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn, a bod y sefyllfa danwario wedi hwyluso hyn. Dywedodd y CA bod y trosglwyddiad cyffredinol £1.003 miliwn yn llai na'r hyn a ddisgwyliwyd wrth osod y gyllideb, a bod HDP wedi cymryd £2.482 miliwn o gronfeydd wrth gefn ond wedi rhoi £1.2 miliwn yn ôl erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r £1.2 miliwn yn cynnwys £354,000 o'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr, £127,000 o Gronfeydd Cydweithio Wrth Gefn a chreu Cronfa Gynaliadwy Wrth Gefn o £460,000. Mae trafodaethau'n parhau mewn perthynas â chyfeirio tanwariant yr Heddlu tuag at gronfa weithrediadol. Estynnodd y PG ei ddiolch i'r CA a'r PSA am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn, a dywedodd fod HDP mewn gwell sefyllfa ariannol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2019/20 i reoli ei arian ac yn bwriadu parhau i graffu ar ddalwyr cyllideb ar draws yr Heddlu yn fisol. Hefyd, nododd y Bwrdd effaith gadarnhaol gweithgarwch Grŵp Aur yr Heddlu, sy'n cael ei gadeirio gan y PG.

Dywedodd y CHTh ei fod yn falch o'r lefel craffu a roddir gan y Grŵp Aur, a diolchodd i uwch arweinwyr am eu gwaith parhaus o ran lleihau gwariant o fewn eu hadrannau. Cytunodd y PSA â hyn, fodd bynnag, anogodd yr Heddlu i barhau i graffu er mwyn lleihau gwariant, mynd i'r afael â diffygion ariannol, a nodi risgiau

wrth symud ymlaen. Mynegodd y CHTh ei rwystredigaeth mewn perthynas â'r tanwariant yn ei swyddfa fel rhan o gynlluniau i leihau gorwariant posibl gan HDP, a dywedodd y gallai'r arian fod wedi'i wario ar gomisiynu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

**6 – Craffu Dwys**

Cadarnhaodd y Prif Swyddogion bod llythyr wedi'i anfon atynt yn gofyn am ymateb i bob un o'r argymhellion o adolygiad craffu dwys SCHTh ar ymagwedd yr heddlu tuag at fynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon. Dywedodd y PGC/DD bod llawer o weithgarwch yn mynd rhagddo mewn perthynas â throseddu trefnedig a throseddau difrifol. Cynhaliwyd adolygiad cymheiriaid gan Swyddog Staff Arweiniol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Swyddog Arweiniol o'r Swyddfa Gartref yn ystod yr haf, a awgrymodd nifer o argymhellion. Nodwyd bod y Ditectif Brif Arolygydd Gareth Roberts wedi llunio Strategaeth Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig yn ddiweddar. Bydd y strategaeth honno'n cael ei chyhoeddi cyn hir, yn dilyn trafodaethau pellach gyda phartneriaid. Bydd y Strategaeth yn cynnwys argymhellion o'r adolygiad cymheiriaid, argymhellion cenedlaethol, ac adolygiad craffu dwys SCHTh. Adroddodd y PGC/DD am waith da sy'n mynd rhagddo o fewn y Tîm Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig. Mae Tîm Pennu Tasgau Cudd yr Heddlu'n craffu ar waith gweithrediadol y tîm.

(1) Cyfeiriodd y PGC/DD at yr argymhelliad cyntaf: *Ymgysylltir â phartneriaid yn ystod cam cynllunio cynnar wrth gyflwyno ymgyrchoedd aflonyddu ar gyffuriau er mwyn sicrhau'r ymrwymiad mwyaf posibl gan bob partner, gan gynnwys asiantaethau partner megis CrimeStoppers Cymru, i redeg ymgyrchoedd casglu cudd-wybodaeth mewn mannau problemus lleol o ran cyffuriau.* Dywedodd y PGC/DD bod HDP wedi dysgu gwersi a nodwyd gan Dîm Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig Powys ac adolygiad o Ymgyrch Regent, lle y siaradodd partneriaid yn ffafriol am ymgysylltiad HDP. Un wers oedd i gyfarfodydd tactegol Tîm Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig Powys gael eu hefelychu ym mhob Uned Reoli Sylfaenol. Dywedodd y PGC/DD bod sgyrsiau manwl gyda phartneriaid mewn perthynas â gweithgarwch atal, diogelu a gorfodi ledled yr Heddlu'n parhau i sicrhau y bydd y dysgu a ddatblygwyd o'r sgyrsiau hynny'n cael eu gwreiddio ar draws yr Heddlu. Hefyd, rhoddodd y PGC/DD wybod i'r Bwrdd am ymgysylltu pellach gyda phartneriaid, er enghraifft, hyfforddi awdurdodau tai lleol, cyflwyniadau i fforymau landlordiaid a gwaith yn Sir Gaerfyrddin gyda swyddogion tai.

(2) Cyfeiriodd y PGC/DD at yr ail argymhelliad: *Datblygu protocol 'cyflenwad cyffuriau a thriniaeth' rhwng Heddlu Dyfed-Powys a darparwyr cam-drin sylweddau arbenigol.* Dywedodd y PGC/DD bod y Prif Uwch-arolygydd Peter Roderick nawr yn

cadeirio'r cyfarfodydd Bwrdd Cynllunio Ardal yn Nyfed, ac y byddai'n datblygu'r argymhelliad hwn.

(3) Cyfeiriodd y PGC/DD at y trydydd argymhelliad: *Rhoi diweddariad ar y cynllun gweithredu Profi Adeg Arestio a grëwyd fel rhan o Ddigwyddiad Gwella Parhaus 2017.* Nodwyd bod y Bwrdd Dalfeydd a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol wedi craffu ar faterion sy'n ymwneud â Phrofi Adeg Arestio. Rhoddwyd y dasg o graffu ar faterion systemau i arolygydd cyn gwneud unrhyw newidiadau posibl o fewn yr Uned Ddalfeydd.

(4) Cyfeiriodd y PGC/DD at y pedwerydd argymhelliad: *Gweithredu'r Cynllun Braenaru ledled ardal Dyfed-Powys, gan ddarparu strwythur gweithredol cadarn sy'n cefnogi cyfeirio i'r cynllun a chyflwyno model gwarediad tu allan i'r llys ddwy haen.* Cytunwyd nad oedd angen craffu pellach o fewn y fforwm hwn gan fod y cynllun Braenaru wedi'i drafod yn helaeth yn ystod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol CHTh fis Ebrill.

(5) Cyfeiriodd y PGC/DD at y bumed argymhelliad: *Adolygu effeithlonrwydd Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau gyda golwg ar eu heffaith bosibl yn Nyfed-Powys, o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau.* Dywedodd y PGC/DD bod angen darn o waith ehangach ar gyfer yr argymhelliad hwn, gydag oblygiadau cenedlaethol. Dywedodd y PGC/DD y byddai HDP yn edrych i mewn i'r mater ar y cyd â SCHTh.

(6) Cyfeiriodd y PGC/DD at y chweched argymhelliad: *Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i ymgysylltu â'r Bwrdd Cynllunio Ardal mewn cefnogaeth o'r agenda atal ehangach, er mwyn cyflenwi ymagwedd sydd wir yn draws-sefydliadol.* Dywedodd y PGC/DD bod y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cychwyn gwaith ar ddyfeisio cynllun gweithredu llinellau cyffuriau yn ystod yr hydref, yn unol ag argymhelliad dau (2).

(7) Cyfeiriodd y PGC/DD at y seithfed argymhelliad: *Sicrhau bod arfer gorau y tynnwyd sylw ato o fewn y gwaith Pwyntiau Dysgu Allweddol Mewn Perthynas â Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau yn cael ei wreiddio yn arferion yr Heddlu.* Cydnabu'r PGC/DD bod adroddiad craffu dwys SCHTh wedi cyflwyno canfyddiadau diddorol mewn perthynas ag ystafelloedd triniaeth cyffuriau, ac y byddai'r holl ganfyddiadau'n cael eu gwerthuso yn ystod cyfarfodydd blaengynllunio'r Tîm Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig.

(8) Cyfeiriodd y PGC/DD at yr wythfed argymhelliad: *Adolygu'r canlyniadau ar ôl defnyddio'r broses stopio a chwilio, er mwyn sicrhau bod rhain yn cael eu gweithredu'n briodol a chyson a'u bod yn unol â pholisi'r Heddlu.* Dywedodd y PGC/DD bod Panel Sicrhau Ansawdd SCHTh yn rhoi sicrwydd ynghylch

gweithgarwch Stopio a Chwilio HDP, gyda HDP ei hun yn archwilio 60 i 80 cofnod Stopio a Chwilio y mis drwy arolygwyr a phartïon annibynnol, sef 20% - 40% o'r holl brosesau Stopio a Chwilio.

(9) Cyfeiriodd y PGC/DD at y nawfed argymhelliad: *Cynnal gwerthusiad o'r cynllun peilot Ymchwilydd Cyfryngau Digidol yn Sir Benfro er mwyn nodi manteision posibl cyflwyno'r cynllun ar draws yr Heddlu.* Nodwyd bod HDP wedi gwerthuso'r cynllun peilot ac yn disgwyl papur adolygu ar yr Uned Gorchymyn a Rheoli Digidol. Mae'r uned wedi'i staffio'n llawn ar hyn o bryd gyda 12 unigolyn, ac mae Ymchwilwyr Lleoliadau Trosedd yn cael eu defnyddio er mwyn gwella gallu. Nodwyd bod archwiliadau'r uned o lawrlwythiadau ffôn symudol nawr yn cael eu cwblhau o fewn 8 wythnos yn hytrach na 40 wythnos.

Diolchodd y CHTh i'r PGC/DD am y diweddariad, gan ddweud y byddai angen diweddariad pellach arno o gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod yr haf. Byddai'r CHTh yn rhoi adroddiad cynnydd i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ganfyddiadau'r ddau adolygiad craffu dwys – Defnydd o Rym a Chyffuriau – yng nghyfarfod mis Hydref.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi diweddariad pellach ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiadau craffu dwys erbyn mis Medi 2019.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 07/05/2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan: |
| **PAB 122** | **Y DBG/DD i roi crynodeb i'r CHTh o bob achos cwyn dros 180 diwrnod gwaith.** | **DBG/DD** |
| **PAB 123** | **AHGTAEM i ymddangos fel eitem dreigl ar agenda'r Bwrdd Plismona er mwyn rhoi cyfle i brif swyddogion ddiweddaru SCHTh am gynnydd HDP o ran cwblhau argymhellion a wnaed gan AHGTAEM.** | **MH** |
| **PAB 124** | **Alison Perry o SCHTh i eistedd ar Grŵp Aur Cam-drin Domestig yr Heddlu.** | **CC** |
| **PAB 125** | **Yr Heddlu i roi diweddariad pellach ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiadau craffu dwys erbyn mis Medi 2019.** | **CN** |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

10:00 – 13:30 6 Awst, Campws Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.